Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad | Commonwealth Parliamentary Association

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Adroddiad ar gyfranogiad y Senedd yng

# NGHYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD

## *Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad - rhif 67*

*3-8 Tachwedd 2024*

## Sydney, De Cymru Newydd



Llun: Y Llywydd, Elin Jones AS a Chadeirydd Senedd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, Rhun ap Iorwerth AS gyda'r Anrhydeddus Gregg Piper AS, Llefarydd Cynulliad Deddfwriaethol De Cymru Newydd.

## Cynnwys:


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cefndir, crynodeb ac uchafbwyntiau | t. 3 |
| 2 | Uchafbwyntiau fideo | t.6 |
| 3 | Cyfarfodydd dwyochrog ac ymgysylltiad arall | t.7 |
| 4 | Datganiad terfynol | t.14 |
| 5 | Diolchiadau | t.14 |
| 6 | Atodiad A – Rhun ap Iorwerth AS - Anerchiad y Ddadl Amserol | t.16 |
| 7 | Atodiad B – Prif Anerchiad Seneddwragedd y Gymanwlad y Llywydd | t.19 |

## Cefndir, crynodeb ac uchafbwyntiau

Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad yw cyfarfod blynyddol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Mae'n un o gyfarfodydd mwyaf y Gymanwlad, gan ddwyn ynghyd dros 500 o Seneddwyr yn cynrychioli dros 180 o ganghennau seneddol, o bob rhan o naw rhanbarth y Gymdeithas.

Cynhaliwyd Cynhadledd rhif 67 rhwng 3 ac 8 Tachwedd 2024 yn Sydney, De Cymru Newydd (Awstralia). Thema'r Gynhadledd oedd "***Engage, Empower, Sustain: Charting the Course for Resilient Democracy"***.

Roedd y Gynhadledd yn Sydney yn cyd-daro â daucanmlwyddiant Senedd De Cymru Newydd.

Gwahoddwyd Cangen Cymru (y Senedd) o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, fel rhan o'i strwythur ffioedd, i anfon un cynrychiolydd gyda'r opsiwn o gael ei gynrychioli gan gyfranogwyr 'arsylwi' ychwanegol y gynhadledd.

Y tro hwn bu'r Llywydd, Elin Jones AS (Llywydd y Gangen) a'r Cadeirydd, Rhun ap Iorwerth AS yn cynrychioli'r Gangen yn y Gynhadledd arbennig hon. Dyma'r tro cyntaf i Rhun ap Iorwerth AS fynychu'r Gynhadledd ers cael ei ethol yn Gadeirydd y Gangen yn 2016. Hwn hefyd oedd yr achlysur cyntaf y gwyddys amdano i Lywydd ein Senedd fynychu'r Gynhadledd; gyda hon yn cyd-daro â phen-blwydd y Senedd yn 25.

Cymerodd dirprwyaeth y Senedd ran lawn yn y Gynhadledd, gan chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd i wneud cyfraniadau blaenllaw i drafodion y gynhadledd yn ogystal â manteisio ar yr achlysur a'r lleoliad er mwyn cynnal cyfres o gyfarfodydd dwyochrog, yn ogystal ag ymgysylltu â'r gymuned Gymreig leol.

Dyma rai uchafbwyntiau nodedig a phethau allweddol a ddysgwyd o'r Gynhadledd:

<u>**Seremoni agoriadol**</u>

Roedd y seremoni agoriadol swyddogol yn dipyn o ddigwyddiad.
Cafodd ei chynnal yn theatr drawiadol Darling Harbour ac roedd y rhaglen yn cynnwys:
- Croeso i'r wlad gan Matthew Doyle, Artist Cenhedloedd Cyntaf uchel ei barch a Chynghorydd Diwylliannol.

<u>Rhoddwyd **anerchiadau** gan:</u>
- Ei Hardderchowgrwydd yr Anrhydeddus Margaret Beazley AC KC, Llywodraethwr De Cymru Newydd;
- Yr Anrh. Ben Franklin MLC, Llywydd Cyngor Deddfwriaethol De Cymru Newydd;

- Yr Anrhydeddus Greg Piper AS, Llefarydd Cynulliad Deddfwriaethol De Cymru Newydd;
- Mr Stephen Twigg, Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad;
- Yr Anrh. Chris Minns AS, Prif Weinidog De Cymru Newydd.

Cafwyd **perfformiadau** gan:

- Sefydliad Cerddoriaeth Sydney
- Theatr Ddawns Bangarra
- Côr Plant Sydney
- James Johnston, seren Cerddoriaeth Gwlad brodorol De Cymru Newydd

**Penderfyniadau allweddol a wnaed yn y Gynhadledd**

Statws Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad

Cafodd y mater hirsefydlog hwn ei ddatrys o'r diwedd, a chroesawodd Cynadleddwyr y gwaith a wnaed i alluogi Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad i greu **sefydliad anelusennol newydd a hynt Bil Statws Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Senedd y DU i ddeddfu i gydnabod y Gymdeithas fel sefydliad rhyngwladol, rhyngseneddol.**

Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd y Gymdeithas

Yn ystod Cynulliad Cyffredinol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad 2024, etholodd Aelodau'r Gymdeithas yr Anrh. Dr Christopher Kalila, AS (Zambia) fel Cadeirydd newydd Pwyllgor Gweithredol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad am dymor newydd o dair blynedd.

Yn ystod cyfarfod Pwyllgor Gweithredol newydd y Gymdeithas, etholwyd yr **Anrh. Carmel Sepuloni AS**, Aelod o Senedd Seland Newydd a Chynrychiolydd Rhanbarthol dros Ranbarth Môr Tawel Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad i swydd Is-Gadeirydd Pwyllgor Gweithredol y Gymdeithas.

2025 – Cynhadledd rhif 68

Cadarnhawyd y cynhelir Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad - rhif 68 gan Gangen Barbados y Gymdeithas ym mis Hydref 2025.

Fel rhan o'r Gynhadledd ehangach, cynhaliwyd **8fed Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad**. Thema Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad oedd '***Engaging, Promoting and Retaining Women in Power***'. Yn ogystal â chymryd rhan yng Nghynhadledd gyffredinol Seneddwragedd y Gymanwlad, rhoddodd y Llywydd brif anerchiad yn y Gweithdy ar “Sut i Gadw Menywod mewn Gwleidyddiaeth”.




Gellir darllen araith y Llywydd yn **Atodiad B**.

[Dadl Amserol Cynulliad Cyffredinol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar gyfer 2024]
Fel rhan o'r Cynulliad Cyffredinol eleni, dewiswyd Rhun ap Iorwerth AS, cynrychiolydd o'r Senedd, fel prif lefarydd yn y Ddadl Amserol ar "*Rôl y Senedd o ran Cryfhau Gwydnwch Democrataidd mewn Oes o Newyddion Ffug a Chyfryngau Synthetig*". Mae'r araith ar gael yn **Atodiad A**.

## Gweithdai'r Gynhadledd

Mynychodd dirprwyaeth y Senedd nifer o weithdai'r Gynhadledd, gan gynnwys:
*"The Use of Artificial Intelligence in Parliamentary Processes and Practices - Opportunities and Challenges"*, a
***"****Parliamentary Frameworks for Meaningfully Engaging with Indigenous Peoples"*.

O ddiddordeb arbennig oedd y gweithdy "***How can Legislatures Best Support and Promote LGBT+ Participation?***" lle roedd Cadeirydd y Gangen yn gallu tynnu sylw at y gwaith cadarnhaol (lle roedd Adam Price AS yn chwarae rhan arweiniol) yn ein Rhanbarth BIM i sefydlu'r Rhwydwaith Rhanbarthol LHDTC+ cyntaf o fewn Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

## Cyfarfod Rhanbarthol BIM

Roedd cynulliad o gynrychiolwyr BIMR a oedd yn bresennol yn y Gynhadledd yn gyfle i glywed diweddariadau llywodraethu a diweddariadau eraill gan ein Cynrychiolwyr Rhanbarthol ar Bwyllgor Gwaith Rhyngwladol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

Anerchodd Cadeirydd y Senedd, Rhun ap Iorwerth AS y cynulliad i drafod cynnydd gyda gwaith LHDT+ (a nodir uchod) yn ogystal â thrafod Cynhadledd Ranbarthol rhif 54 BIM, yr oedd y Senedd yn edrych ymlaen at ei chynnal ym mis Mehefin 2025.

## Cinio Swyddogol yn Neuadd y Dref Sydney

Daeth Cynhadledd rhif 67 i ben gyda Chinio Swyddogol o fewn lleoliad ysblennydd yn Neuadd y Dref Sydney.
Gwestai arbennig yng Nghinio Swyddogol y Gynhadledd oedd Prif Weinidog Awstralia, yr Anrh. Anthony Albanese, AS. Gellir darllen prif araith Mr Albanese **yma**.

## Uchafbwyntiau fideo

FINAL video_subs_CY.mp4

FINAL video_subs_EN.mp4

## Cyfarfodydd dwyochrog

i) **Llefarydd Gregg Piper o Gynulliad Deddfwriaethol De Cymru Newydd**



Roedd yn anrhydedd cael y cyfle i ymweld â Senedd De Cymru Newydd a chwrdd â Greg Piper, Llefarydd Cynulliad Deddfwriaethol De Cymru Newydd.
Roedd yr ymweliad yn cynnwys cyfarfod ffurfiol gyda’r Llefarydd, yn ogystal â thaith o amgylch y Senedd, gan gynnwys y Siambr, a nododd y Llefarydd Piper y cyfeiriwyd ati fel “the Bear *Pit*” oherwydd natur wrthwynebol y dadleuon yn aml.

Roedd y trafodaethau’n cynnwys:

- Arwyddocâd pen-blwydd senedd De Cymru Newydd yn 200 - y senedd gyntaf a'r hynaf yn Awstralia.
- Y potensial ar gyfer cysylltiadau a chydweithio agosach rhwng Senedd Cymru a Senedd De Cymru Newydd drwy Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, ond hefyd yn ddwyochrog.
- Byrllysg seremonïol y Senedd a roddwyd yn anrheg gan Senedd De Cymru Newydd ar adeg agoriad swyddogol adeilad y Senedd yn 2006.
- Dylanwad diwylliannol a chysylltiadau rhwng Cymru a De Cymru Newydd, a dylanwadau Cymreig yn Awstralia. Trafodwyd yn benodol boblogrwydd Eisteddfodau yn Awstralia.



Llun. Roedd yn anrhydedd i ddirprwyaeth y Senedd weld y "Ddraig Goch" yn chwifio y tu allan i Senedd De Cymru Newydd yn ystod eu hymweliad.

**ii) Dirprwy Lefarydd Regan Allen a dirprwyaeth o Senedd Daleithiol Western Cape (De Affrica)**

Braf unwaith eto oedd cwrdd â chynrychiolwyr o Senedd Daleithiol Western Cape. Roedd Dirprwy Lefarydd Reagen Allen yn nodi dymuniadau gorau oddi wrth y Llefarydd Daylin Mitchell a oedd yn anffodus wedi gorfod tynnu'n ôl o fynychu'r Gynhadledd.



Llun: Dirprwyaethau'r Senedd a Senedd Daleithiol Western Cape yng Nghanolfan Gynadledda Sydney.

Roedd y trafodaethau'n cynnwys:

- Diweddariad ar gynlluniau'r Senedd Daleithiol i sefydlu Senedd Ieuenctid, yn dilyn y sesiynau a ddarparwyd gan Gomisiwn y Senedd ar fodel Senedd Ieuenctid Cymru. Nododd y Llywydd ei balchder yn Senedd Ieuenctid Cymru ac anogodd y Senedd Daleithiol i fynd ar drywydd hyn. Diolchodd y Senedd Daleithiol i'r Senedd a Rheolwr Senedd Ieuenctid Cymru, Delyth Lewis, am ei gwaith a'i hymrwymiad i gefnogi Senedd Daleithiol Western Cape gyda'r prosiect pwysig hwn.
- Gweithio hybrid, gyda'r Senedd Daleithiol â diddordeb mewn dysgu mwy am sut roedd y Senedd yn gweithredu ac am yr ap pleidleisio o bell yr oedd wedi'i ddatblygu yn ystod y pandemig ac yn parhau i'w ddefnyddio.
- Datblygiadau cyfansoddiadol yng Nghymru a'r cynnydd arfaethedig yn nifer yr Aelodau ar gyfer Etholiadau'r Senedd yn 2026. Roedd hyn o ddiddordeb arbennig i'r Senedd Daleithiol a oedd, a gydnabuwyd, yn cael ei thangynrychioli fel deddfwrfa. Cytunodd y Senedd i rannu'r adroddiad "*Senedd sy'n Gweithio i Gymru*", dan arweiniad yr Athro Laura McAllister yn ogystal â manylion am y ddeddfwriaeth ddiwygio gyda'r Senedd Daleithiol.

### iii) Llefarydd Natalie Roy a Chynulliad Cenedlaethol Quebec

Cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol gyda'r Llefarydd Natalie Roy a'i dirprwyaeth o Gynulliad Cenedlaethol Quebec.

Roedd y trafodaethau'n cynnwys:

- Adborth ar Weithdy Seneddwragedd y Gymanwlad y bu'r Llywydd a'r Llefarydd Roy yn cymryd rhan ynddynt.
- Ymweliad y Llefarydd Roy a'i dirprwyaeth â'r Senedd ym mis Mehefin 2024.
- Cynadleddau Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y byddai Quebec a Chymru yn eu cynnal yn 2025 ar gyfer Rhanbarthau Canada a BIM, yn y drefn honno.
- Cynhadledd y Llefarwyr Benywaidd y byddai Cynulliad Cenedlaethol Quebec yn ei chynnal ym mis Mai 2025, y gwahoddwyd y Llywydd i fod yn bresennol ynddi.



Llun: Y Llywydd yn rhannu'r llwyfan gyda'r Llefarydd Natalie Roy o Gynulliad Cenedlaethol Quebec.

**iv) Senedd Seland Newydd**

Trefnwyd cyfarfod brecwast, o fewn ymylon y gynhadledd, rhwng y Senedd a dirprwyaeth Senedd Seland Newydd.

Roedd y trafodaethau'n cynnwys:

- Datblygiad presennol Seneddau Seland Newydd, yn ogystal â throsolwg o'r newidiadau cyfansoddiadol sy'n digwydd yn y Senedd.
- Trafodaeth ar sut mae ein Seneddau yn gweithio'n ddwyieithog, yn ogystal â rôl y Gymraeg a'r ieithoedd Māori o fewn ein cymdeithasau priodol.
- Profiad diweddar Senedd Seland Newydd yn cynnal Senedd Ieuenctid y Gymanwlad lle cynrychiolwyd y Senedd gan gyn-Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, Tegan Skyrme, y gellir darllen ei hadroddiad **yma**. Nododd y Senedd ein bod wedi mynegi diddordeb dros dro mewn cynnal cynhadledd Senedd Ieuenctid y Gymanwlad yn y dyfodol, a chynigiodd Senedd Seland Newydd yn garedig i drosglwyddo yr hyn a ddysgodd.
- Seland Newydd yn cynnal cynhadledd ANZACATT yn Wellington ym mis Ionawr 2025 lle byddai'r Senedd yn cael ei chynrychioli gan uwch-glerc.



Llun: Dirprwyaeth Senedd Cymru a Senedd Seland Newydd (Yr Anrh. Carmel Sepuloni, yr Anrh. Willie Jackson, Dana Kirkpatrick, Dr. Lawrence Xu-Nan a Dr. David Wilson, Clerc Tŷ Cynrychiolwyr Seland Newydd.)

**Gwahoddiadau i fynychu Cynhadledd BIMR y Senedd**

Ym mis Mehefin 2025, bydd y Senedd yn croesawu Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir - rhif 54. Estynnodd y Llywydd a Chadeirydd y Gangen wahoddiadau i bob un o'r dirprwyaethau uchod y buont yn cyfarfod â hwy i anfon cynrychiolydd i fynychu'r gynhadledd, fel ein gwesteion rhyngwladol.

**Ymgysylltu ag Is-gennad Cyffredinol Prydain, Sydney**

Roedd dirprwyaeth y Senedd yn falch o'r cyfle i gwrdd ag Is-gennad Cyffredinol Prydain yn Sydney, Louise Cantillon, a'i thîm ar gyfer sesiwn friffio, yn ogystal â derbyniad swyddogol, a hwyluswyd yn garedig ar gyfer dirprwyaethau o Ranbarth BIM.

Roedd y sesiwn friffio, a oedd yn cynnwys cyfranogiad drwy gyswllt fideo â chydweithwyr o Uchel Gomisiwn Prydain yn Canberra, yn cynnwys mewnwelediadau ar nifer o bynciau o ddiddordeb, gan gynnwys:

- Y dirwedd wleidyddol bresennol yn Awstralia.
- Demograffeg Awstralia a phwysigrwydd ei 60,000 o bobl brodorol - gwareiddiad hynaf y byd a oedd yn cyfrif am 3% o boblogaeth Awstralia.
- Sensitifrwydd ac weithiau natur ymrannol Refferendwm "Llais" 2023 lle pleidleisiodd Awstralia yn llethol i wrthod cynnig i ddiwygio'r cyfansoddiad i gydnabod pobl y Cenhedloedd Cyntaf a chreu fforwm iddynt gynghori'r Llywodraeth.
- Pwysigrwydd Masnach a Thwristiaeth y DU ac Awstralia.
- "Rhyfeloedd Hinsawdd" a'r naratif heriol ynghylch trafodaethau hinsawdd yn Awstralia, sef y trydydd allforiwr mwyaf o danwydd ffosil ar hyn o bryd, tra'i fod yn anelu at gynnal uwchgynhadledd COP31, mewn partneriaeth â Gwledydd Ynysoedd y Môr Tawel.
- Pleidleisio Gorfodol yn Awstralia (a sefydlwyd ym 1924), a'r 'selsig democratiaeth' gwaradwyddus.
- Heriau costau byw yn Sydney - yr ail ddinas ddrutaf yn y byd.



Llun: Cynrychiolwyr BIMR yn Is-gennad Prydain, Sydney.

**Ymgysylltu â Chymdeithas Gymreig Sydney**

Roedd dirprwyaeth y Senedd yn falch o'r cyfle i ymgysylltu ag aelodau o Gymdeithas Gymreig Sydney.

Daeth digwyddiad anffurfiol, a gynhaliwyd yn garedig gan y teulu Griffiths yn ardal Mosman, Sydney, â thros 30 o aelodau'r gymdeithas ynghyd – a rhai ohonynt wedi teithio oriau lawer i Sydney. Anerchodd y Llywydd a Rhun ap Iorwerth AS y cynulliad a threulio amser yn cyfarfod â'r aelodau (yr oedd rhai ohonynt yn hen gyfeillion ac yn wynebau cyfarwydd) i ddysgu am eu bywydau yn Ne Cymru Newydd, yn ogystal â'u hachau Cymreig.


Llun: Ymgysylltu â Chymdeithas Gymreig Sydney.




**Llun:** Rhun ap Iorwerth AS yn cynrychioli'r Senedd yng Nghynulliad Cyffredinol y Gynhadledd.

# Datganiad Terfynol y Gynhadledd

Mae **Datganiad Terfynol y Gynhadledd** ar gyfer **Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad rhif 67** ar gael yma.

Mae'r datganiad terfynol hwn yn cynnwys:

- prif ganlyniadau'r gynhadledd;
- crynodeb o drafodaethau'r gweithdy;
- yr argymhellion a gafodd eu cadarnhau neu eu nodi gan yr Aelodau a oedd yn bresennol.

I gael mynediad at newyddion ac adnoddau pellach o Gynhadledd rhif 67 – ewch i hwb gwefan y Gynhadledd yma.
Mae lluniau o'r digwyddiadau hefyd ar gael ar dudalen Flickr y Gymdeithas yma

## Cydnabyddiaeth

Hoffai Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad gofnodi ei ddiolch diffuant i'r canlynol:

Y Llefarydd Greg Piper AS a Senedd De Cymru Newydd
Is-gennad Prydain, Sydney
Teulu Griffiths (Cymreig) yn Sydney
Cymdeithas Gymreig Sydney
Helen Haywood ac Ysgrifenyddiaeth BIMR
Ysgrifenyddiaeth Pencadlys Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad

## Atodiad A

### Prif araith gan Rhun ap Iorwerth AS i Ddadl Amserol y Cynulliad Cyffredinol:

# *Pleidleisiau ynteu Poblogrwydd: Rôl y Senedd o ran Cryfhau Gwydnwch Democrataidd mewn Oes o Newyddion Ffug a Chyfryngau Synthetig.*

Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon, sy'n mynd at wraidd un o'r materion mawr yng ngwleidyddiaeth fyd-eang heddiw, sef ymddiriedaeth yn y system wleidyddol.
Mae pob un ohonom yma fel Seneddwyr wedi penderfynu ymddiried yn y system ddemocrataidd. Gofynnwn i bobl gredu ynom ni, neu ein pleidiau, neu ein polisïau - neu gyfuniad o'r rhain i gyd - a gofyn iddyn nhw ymddiried ynom ni drwy'r blwch pleidleisio.

Ond rydyn ni'n ymdrin ar hyn o bryd â ffactorau sy'n tanseilio'r union sylfeini y mae'r berthynas honno rhwng gwleidydd a phleidleisiwr yn seiliedig arnynt.
Mewn rhai ffyrdd 'does dim byd newydd yn hynny. Mae digon o enghreifftiau drwy gydol hanes o bobl mewn gwleidyddiaeth yn bod yn 'economaidd â'r gwir'. Ac ydy, mae hynny bob amser wedi ysgogi lefel o ddiffyg ymddiriedaeth mewn gwleidyddion. "Ydyn nhw wir yn dweud y gwir wrthon ni? Ai dim ond brolio eu hunain maen nhw neu'n tanseilio eu gwrthwynebwyr?"
Ond mae iteriad yr 21ain ganrif o hyn wedi mynd â'r bygythiad o danseilio democratiaeth i lefel newydd.

Yn gyntaf, y cyflymder y gellir lledaenu newyddion ffug sydd wedi newid yn ddramatig yn sgil dyfodiad ac ymlediad llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol. Gall rîl TikTok neu Instagram neu neges ar Twitter fod o gwmpas y byd mewn munudau, yn cael ei wthio i linell amser unigolyn gan algorithmau ymosodol. 'Does dim dewis pa bapur newydd i'w brynu y dyddiau hyn! Rydych chi'n darllen beth maen nhw ei eisiau, pan maen nhw eisiau ichi wneud hynny.
Ond yna ewch ag ef i lefel arall eto: gyda newyddion ffug wedi'i yrru gan ffugio dwfn a chyfryngau synthetig, wedi'i rannu ar y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol hynny yn eich llaw neu yn eich poced drwy'r amser, rydyn ni'n delio â gallu actorion drwg i gamliwio go iawn. Syntheseiddio sain. Neu fideo. Gwneud i rywbeth ddigwydd na ddigwyddodd. Pethau'n cael eu dweud na ddywedwyd erioed. Ac yn argyhoeddiadol iawn.
Nawr, rwy'n edrych ar hyn o sawl safbwynt. Yn gyntaf, rydw i'n ddinesydd cyffredin, fel y gweddill ohonoch chi. Rwy'n credu mewn democratiaeth, ac rydw i am gael system ddemocrataidd weithredol.

Yn ail dwi'n wleidydd fy hun. Rydw i am i wleidyddiaeth fod yn onest.

Ond yn drydydd, er fy mod wedi cael fy hun mewn gwleidyddiaeth etholedig am y degawd diwethaf, am ddau ddegawd cyn hynny roeddwn i'n newyddiadurwr a darlledwr gyda'r BBC, ac rwy'n dal i ystyried newyddiaduraeth fel fy mhroffesiwn. Ac fel newyddiadurwr, mae mynd ar drywydd y gwir a'i hyrwyddo yn hynod bwysig imi. Ond mae gwirionedd ei hun bellach dan warchae.

Felly, beth ddylwn i ei wneud? Rydyn ni'n dal ym mlynyddoedd cynnar y technolegau AI newydd hyn. Rydyn ni wedi bod yn trafod yn y gynhadledd hon sut i wneud y gorau o'r cyfleoedd a gyflwynir inni gan AI, ond hefyd sut i wynebu'r heriau. Ac mae'n rhaid i ddemocratiaeth addasu.

Oes, mae'n rhaid i'r rhai y tu ôl i'r offer digidol newydd a llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol eu hunain weithredu, ond mae'n rhaid inni fel seneddwyr a) weithio gyda nhw a b) dod o hyd i ffyrdd o reoleiddio yn erbyn ffugio dwfn a chyfryngau synthetig. Nid oes ganddyn nhw unrhyw ddiben cadarnhaol, ac maen nhw'n tanseilio democratiaeth.

Ac mae angen inni addysgu. Fel newyddiadurwr, mae ffynonellau yn bwysig. Roedden ni'n arfer annog pobl ifanc i chwilio am wybodaeth o sawl ffynhonnell, er enghraifft gwaith ymchwil ysgol. Peidio â gwneud chwiliad Wicipedia yn unig. Chwilio am ffynonellau eraill ar gyfer gwybodaeth a gyflwynir ichi. Wel, mae hynny'n berthnasol iawn o hyd wrth gwrs, ond mae'r angen i hybu gwyliadwriaeth o ran sut i dderbyn gwybodaeth yn mynd yn llawer mwy cymhleth pan fydd y wybodaeth honno'n cyrraedd y dinesydd mewn ffordd oddefol - mae anwireddau achlysurol yn cael eu portreadu fel ffaith ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol...os cânt eu clywed yn ddigon aml neu efallai dim ond unwaith os caiff ei wneud mewn ffordd effeithiol, gall canfyddiadau gael eu gwyrdroi. Yn ddemocrataidd gellir troi safbwynt gwleidyddol wyneb i waered, camliwio cymeriad neu gredoau cynrychiolydd etholedig neu ymgeisydd. Felly, mae addysg dinasyddiaeth effeithiol yn HANFODOL fel bod pobl BOB AMSER yn chwilio am ymdrechion i'w twyllo a'u camarwain.

Rhywbeth arall y byddaf i'n cyfeirio ato - rhag ofn i hyn sbarduno rhai cwestiynau neu ddadlau yma heddiw. Fe allwn ni, wedi'r cyfan, reoli'r hyn sy'n dod allan o'n cegau ein hunain neu'r hyn sy'n cael ei argraffu neu ei gyhoeddi yn ein henwau. Yn Senedd Cymru rydyn ni'n edrych ar sut y gallem ei gwneud yn anghyfreithlon i ddweud celwydd mewn gwleidyddiaeth - i'w gwneud yn anghyfreithlon i'r rhai mewn swyddi etholedig neu ymgeiswyr i gamarwain pobl, gan wybod eu bod yn gwneud hynny. Mae hyn yn cael ei wneud fel ymateb i'r ffenomen fyd-eang o ddirywiad o ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth, a'r perygl gwirioneddol o ble y gallai hynny ein harwain.

Yn olaf, a dof i ben ar y pwynt hwn – boed hynny drwy’r math hwnnw o ddull deddfwriaethol, neu drwy reoleiddio, neu addysg – mae gan bob un ohonom ni fel unigolion ran i’w chwarae wrth geisio hyrwyddo gonestrwydd ac uniondeb gwleidyddol, a thrwy hynny helpu i hyrwyddo’r math o wydnwch sy’n teimlo dan fygythiad gwirioneddol yn ein systemau seneddol. Ond dim ond gyda'n gilydd, y gallwn ni WIR obeithio mynd i'r afael â'r bygythiad hwn, a dyna pam ei bod mor bwysig ein bod ni fel Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn cymryd y mater hwn o ddifrif, a pham fy mod i mor falch mai dyma ein dadl amserol heddiw.

## Atodiad B

## Prif Araith gan y Llywydd, Elin Jones AS i Weithdy Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad:

### *Cadw Menywod mewn Seneddau:*
### *Sut i gadw menywod mewn gwleidyddiaeth?*

Dyma bwnc hynod ddiddorol. Mae'n un sydd wedi croesi fy meddwl, yn gynyddol felly, dros y blynyddoedd diwethaf ond nid hyd nes imi baratoi ar gyfer y sesiwn hon yn y gynhadledd hon rydw i wedi canolbwyntio fy meddyliau ar yr hyn y mae'n ei olygu inni seneddwragedd – y rhai ohonom ni sydd yma heddiw a'r rhai ohonom ni sydd i ddod yfory.

Gadewch imi ddechrau drwy sôn ychydig am gynrychiolaeth y rhywiau yn fy Senedd i. Y peth cyntaf i'w wybod yw bod Senedd Cymru yn newydd – gan ddathlu 25 mlynedd ers ein creu eleni. Rydyn ni'n Senedd newydd mewn hen wlad. Dyma ni, yn Sydney, yn Ne Cymru Newydd. Rwy'n dod o'r Hen Gymru, ond oherwydd hanes a llawer o wleidyddiaeth, mae Senedd yr Hen Gymru yn 175 mlynedd yn iau na Senedd De Cymru Newydd, sydd newydd ddathlu ei daucanmlwyddiant.
Roedd ein hetholiad cyntaf ym 1999. Cefais fy ethol yn yr etholiad hwnnw ac rwy'n gwasanaethu fy chweched tymor nawr. Defnyddiodd dwy o'r tair prif blaid gamau cadarnhaol i ddewis ymgeiswyr benywaidd yn yr etholiad hwnnw. Arweiniodd hynny at 40% o'r aelodau a etholwyd yn fenywod. Yn 2003 etholwyd Senedd gyfartal rhwng y rhywiau yng Nghymru – 50-50 – y Senedd gyntaf o'i math yn y byd. Am flwyddyn yn 2006, roedd mwy o fenywod yn Senedd Cymru na dynion. Heddiw mae gennym 43% o fenywod yn ein Senedd, Prif Weinidog benywaidd a Chabinet sy'n fwyafrif fenywod.

Roedd etholiad 1999 yn drawsnewidiol – mewn bron i gan mlynedd o gynrychiolaeth fenywaidd o Gymru yn San Steffan yn ystod yr 20fed ganrif, dim ond 7 Aelod benywaidd oedd wedi'u hethol. Dros nos, ar drothwy'r mileniwm newydd, newidiodd wyneb, siâp a lliw gwleidyddiaeth Cymru – daeth yn fwy amrywiol, yn fwy gwybodus ac yn fwy cynrychioliadol. A llawer mwy diddorol.
Wrth edrych yn ôl nawr ar ôl 25 mlynedd o gynrychiolaeth bron yn gyfartal yn ein Senedd – sut ydw i'n gweld yr heriau?

Wrth gwrs, mae'n fwy anodd o hyd perswadio ymgeiswyr benywaidd i sefyll na dynion ac mae'n dal yn fwy heriol i famau ifanc jyglo bod yn rhiant â seneddau na thadau ifanc. Mae disgwyliadau cymdeithas yn dal i fynnu popeth gan y fenyw ac yn disgwyl a derbyn llawer llai gan y dyn. Mae hynny wedi bod yn araf iawn i newid.

Ond yr hyn sydd wedi newid yn sylweddol dros y 25 mlynedd diwethaf yw technoleg gwybodaeth – ac mae’n cynnig bygythiad a gobaith i seneddwragedd.

Mae llawer o sôn am ei fygythiad - mae’r cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu harfogi gan rai i ymosod ar wleidyddion benywaidd, yn anghymesur â dynion. Gall y cyfryngau cymdeithasol fod yn ofod diraddiol, difrïol a bygythiol. Mae'n ein gwneud yn ofnus i ymddangos yn gyhoeddus ac rydym yn cwestiynu pam rydn ni am roi ein hunain a'n teuluoedd drwy hyn. Mae angen mynd i’r afael â hyn drwy reoleiddio cwmnïau’r cyfryngau cymdeithasol a thrwy’r system cyfiawnder troseddol, ac mae hynny’n digwydd mewn rhai achosion. Cafodd un dyn o fy etholaeth ddedfryd o garchar eleni am ei gyfathrebu maleisus a’i fygythiad imi.
Ond mae technoleg hefyd yn cynnig gobaith – gobaith y gall menywod gydbwyso’n well eu llu o gyfrifoldebau teuluol â’u bywyd gwaith, seneddol. Fel Senedd yng Nghymru, rydym bellach yn gweithio ar ffurf hybrid parhaol. Mae hynny’n golygu, ar gyfer ein holl bwyllgorau, a’n holl eisteddiadau Senedd llawn, y gall yr Aelodau, gan gynnwys Gweinidogion, gymryd rhan a phleidleisio o bell.

Mae'n golygu y gallwn i wneud araith heno yn fyw i'n Senedd o Sydney - er y byddai'r gwahaniaeth amser yn golygu y byddai angen imi fod yn effro am 4 y bore! Ond yn bwysicach fyth mae'n golygu y gall unrhyw un sydd â chyfrifoldeb gofalu, plentyn bach neu fam oedrannus, gymryd rhan o gartref os oes angen. Mae aelodau benywaidd o’n Senedd nawr sy’n defnyddio’r cyfleuster hwn i’w galluogi i aros yn eu hetholaeth i ofalu am eu perthnasau oedrannus yn eu salwch. Rydw i wedi gwneud hynny'n ddiweddar wrth helpu i ofalu am fy nhad wrth iddo wella o strôc. Ac mae’r hyblygrwydd i allu cydbwyso cyfrifoldebau gofalu â gwaith seneddol wedi bod yn ffactor arwyddocaol a dylanwadol yn fy mhenderfyniad personol diweddar i sefyll eto yn yr etholiad yn 2026. Mae gwaith Senedd hybrid wedi ei gwneud hi'n bosibl imi sefyll eto.

Yn gysylltiedig â hyn mae’r defnydd dyddiol a wnaf nawr o Zoom a Teams i gwrdd ag etholwyr ac i leihau’r amser mawr yr oeddwn i’n arfer ei dreulio yn gyrru yn fy etholaeth wledig fawr. Fy swyddfa yw fy ffôn erbyn hyn, ac mae hynny'n cynnig hyblygrwydd gwirioneddol ar gyfer cydbwyso cyfrifoldebau lluosog â gwaith. Mae hefyd yn golygu weithiau fy mod yn ateb negeseuon uniongyrchol gan etholwyr am broblemau gyda rhestrau aros ysbytai neu drenau'n cael eu canslo am 11 o'r gloch y nos - ond dyna fy newis i!
Felly, gall technoleg gwybodaeth helpu i gadw menywod mewn gwleidyddiaeth, er bod iddi ei hanfanteision.

Beth arall all helpu? Wel mae'n amlwg - Menywod. Gall menywod helpu ei gilydd a pherswadio ei gilydd i ddal ati. Bellach mae gennym Gawcws Menywod yn ein Senedd – menywod o bob plaid yn dod at ei gilydd i drafod a dadansoddi a dod o hyd i atebion i heriau cyffredin.

Mae angen i fenywod gefnogi ei gilydd ar draws ffiniau gwleidyddol - mae dynion bob amser wedi gwneud hynny mewn bariau a chlybiau seneddol, ac mae angen inni wneud hynny hefyd.

Ac i drafod y pynciau sydd wedi bod yn dawel ers tro – yn enwedig yn ddiweddar o ran iechyd menywod. A sut y gall iechyd mislif a'r menopos i fenywod effeithio ar eu gallu i weithio a sut i oresgyn hyn. Mae gormod o fenywod wedi rhoi'r gorau i yrfaoedd llwyddiannus ym mhob sector oherwydd symptomau'r menopos.

Dwi newydd fynd heibio fy oedran menopos, ond dwi'n cofio braw llwyr rhewi'r ymennydd yn fy ngorchfygu, ar ganol brawddeg mewn cyfweliad teledu byw. Ar y pryd doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod bod niwl yr ymennydd yn symptom o'r menopos a threuliais fisoedd yn meddwl y byddai angen imi roi'r gorau i fy ngwaith oherwydd gweithrediad afreolaidd fy ymennydd. Rwy'n gwybod nawr pam roedd fy ymennydd yn rhewi ar yr eiliadau mwyaf anghyfleus. Mae trafodaeth gyhoeddus am y menopos yn ddiweddar iawn yn y DU – ac mae pŵer y wybodaeth honno ynghyd â chefnogaeth menywod eraill, a meddyginiaeth i rai, yn angenrheidiol i helpu cymaint o seneddwyr benywaidd i barhau â'n gwaith yn ein canol oes.

Rhaid inni gofio bod realiti menywod mewn seneddau yn dal i fod yn ffenomen gymharol newydd. I ddynion, mae eu bywydau wedi bod yn cyd-fynd â bywyd seneddol ers blynyddoedd, canrifoedd. Iddyn nhw hefyd, mae rhywfaint o hyn yn newid. Ond i fenywod mae angen inni ddatblygu ein rhythm seneddol ein hunain. Rhaid inni beidio â bod yn y tymor byr, yma heddiw ac wedi mynd yfory. I rai, ie, byddan nhw'n colli etholiad neu'n dewis gadael, ond rhaid inni gael hirhoedledd a phrofiad hefyd. Ni all yr hen bennau fod yn bennau gwrywaidd yn unig.

Mewn 25 mlynedd o Senedd Cymru, dim ond 4 o'r aelodau gwreiddiol sy'n parhau i wasanaethu – 3 menyw ac 1 dyn. Gadewch imi ddweud stori un o'r menywod hynny, Jane Hutt, wrthych chi. Mae hi wedi bod yn Weinidog mewn Llywodraeth am bob un o'r 25 mlynedd hynny. Mae'n 75 oed ac ar hyn o bryd mae'n Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac yn Arweinydd y Tŷ. Mewn 25 mlynedd nid yw wedi arafu yn ei gwaith seneddol a llywodraeth ac mae wedi ennill ei sedd ymylol iawn ar chwe achlysur yn olynol. Fel gwleidydd, mae hi'n dod â phobl ar draws y rhaniad gwleidyddol at ei gilydd. Mae hi'n greawdwr ac yn oroeswr. Ac yn hen ben doeth. Mae angen Jane Hutt, llawer o Jane Hutts ar bob Senedd.

Fel menywod, gadewch inni gefnogi ein gilydd ar draws holl Seneddau'r Gymanwlad, pob Senedd, i greu normau newydd. I weithio mewn gwahanol ffyrdd. Gwneud i Seneddau weithio inni, fel y gallwn ni weithio i Seneddau.